

## Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg Awdurdod Lleol Caerdydd

### Dull gweithredu ar sail cyfranogiad

Bu'r Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg yng Nghaerdydd yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i gefnogi datblygiad dull gweithredu seiliedig ar y ffordd gywir o ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol.

Defnyddiodd y gwasanaeth Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol o ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol, i ystyried sut gallen nhw hyrwyddo dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eu gwaith, a nodwyd cyfle i ddatblygu eu hymarfer o ran cyfranogiad.

Gan ddefnyddio ein Pecyn Offer Gwneud Penderfyniadau gyda'n gilydd, creodd y gwasanaeth cynhwysiad gyfleoedd cyfranogiad i wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, pawb ohonynt ag anghenion dysgu ychwanegol. Bu athrawon arbenigol o'r gwasanaeth cynhwysiad yn ymweld â'r grwpiau yn eu lleoliad addysg i gyflwyno'r sesiynau.

Er mwyn sefydlu'r prosiect cyfranogiad bu athrawon arbenigol o'r gwasanaeth yn ymweld â'r lleoliadau cwpl o weithiau i ddod i nabod y plant a'r bobl ifanc. Yn ystod yr ymweliadau hyn buon nhw'n cyflwyno'u hunain, yn cynnal gweithgareddau ynghylch hawliau plant, ac yn gwahodd y plant i fod yn rhan o'r sesiynau pecyn offer, gan nodi'n glir bod cyfranogiad yn wirfoddol. Yna cyflwynodd yr athrawon arbenigol bob un o'r pedair sesiwn yn y pecyn offer dros gyfnod o bedair wythnos. Cymerodd pob sesiwn ryw hanner awr.

### Pŵer hunaniaeth ar y cyd

Disgrifiodd Janet Palmer, Athro Arbenigol Arweiniol, y sesiynau fel rhai 'pwerus iawn'. Fel mae Janet yn esbonio, 'Yn y lleoliadau prif ffrwd, hwn oedd y tro cyntaf i'r bobl ifanc gael cyfle i drafod eu hanghenion dysgu ychwanegol gyda phlant eraill ag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn lleoliadau arbenigol neu ganolfannau adnoddau, roedd tuedd bod gan blant a phobl ifanc hunaniaeth gref yng nghyswllt eu Hanghenion Dysgu Ychwanegol, a hunaniaeth gref ar y cyd. Ond roedd ymdeimlad o fod yn ynysig i'w weld yn amlwg iawn yn y lleoliadau prif ffrwd. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle iddyn nhw gwrdd â disgyblion eraill, weithiau i leisio'r ffaith eu bod yn teimlo'n anghyfforddus oherwydd eu bod yn wahanol. Roedd yn eu galluogi i siarad ag arbenigwyr gyda'i gilydd, a nodi'r pethau hynny oedd ganddynt yn gyffredin.'

'Roedd defnyddio'r gêmâu cynhesu i ddechrau'r sesiynau yn effeithiol iawn, nid dim ond er mwyn cefnogi'r plant i ymgysylltu â'r sesiwn, ond hefyd i'w helpu i feithrin perthynas â'i gilydd, yn arbennig mewn lleoliadau prif ffrwd lle nad oedden nhw o bosib wedi dod at ei gilydd o'r blaen. Cyfrannodd pob un o'r plant at y sesiynau, ac erbyn y drydedd sesiwn, y plant yn bendant oedd yn arwain y sesiwn, nid yr oedolion.'

### Grymuso plant i deimlo'n hyderus

Mae Janet yn esbonio, 'Ym mhob lleoliad, roedd mor werthfawr cael cyfle i siarad â'r plant a'r bobl ifanc am sut maen nhw'n teimlo ynghylch eu dysgu, ac ystod ehangach eu hanghenion. Ym myd addysg gallwn ni ganolbwyntio llawer iawn ar ddeilliannau addysgol, a beth sydd ei angen ar blentyn i wneud cynnydd. Mae hynny'n bwysig iawn, ond mae'n golygu bod anhawster i gael hyd i amser i siarad â phlentyn am eu teimladau a'u blaenoriaethau. Fe wnaeth pob un o'r athrawon oedd yn ymwneud â'n sesiynau fwynhau'r cyfle yn fawr i weithio gyda'r plant mewn ffordd nad oedd yn ymwneud ag addysg.'

'Fe gawson ni gyfle i siarad yn iawn â'r plant am eu teimladau ynghylch eu hadolygiadau personanogol, ac fe ddangosodd hynny i ni ac i'w hathrawon eitha nifer o fylchau yn eu dealltwriaeth

o'u cefnogaeth a'r ADY oedd ganddynt, ac fe'n helpodd ni i sylweddoli mai eu profiad o bosibl oedd bod y cyfarfodydd yn 'cael eu gwneud iddyn nhw'. Dyma oedd y tro cyntaf iddyn nhw gael trafod hyn, ac roedd y plant yn wir yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad am bethau doedden nhw ddim yn eu deall.'

'Fe ddangosodd hyn fod angen i ni wneud mwy i rymuso plant. Mae angen ymgorffori hynny yn ein hymarfer, fel bod plant eu hunain yn cymryd perchnogaeth ar yr hyn mae arnyn nhw ei angen i deimlo'n hyderus – yn eu dysgu a'u bywyd ehangach.'

### **Yr angen am gyfranogiad ar draws lleoliadau**

Mae Janet yn esbonio y byddai pob ALNCO a thîm cynhwysiad ar lefel awdurdod lleol yn elwa o ddefnyddio'r adnodd hwn i ddeall anghenion torfol plant ag ADY mewn lleoliadau. Cynhaliodd y fîm yng Nghaerdydd sesiynau yn ystod cyfnod pan oedd mygydau'n cael eu gwisgo mewn lleoliadau uwchradd, ac roedd lefel uchel o absenoldeb staff. Mae Janet yn esbonio pa mor hanfodol oedd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed ar lefel awdurdod lleol, yn arbennig gan fod cyfleoedd wedi bod mor gyfyngedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd y pandemig.

'Dylai pob ysgol roi hyn ar waith. Roedd yr athrawon yn rhyfeddu at eu disgyblion a'u cyfraniad yn y sesiynau hyn. Bydd rhoi'r amser yma, allan o bwysau addysg, yn golygu ein bod ni'n wir yn gallu gwrandao ar beth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc.'